

Astudiaeth achos ffermwr GrassCheckGB

Alwyn Phillips, Pen y Gelli, Caernarfon.

Mehefin 2024

Ffeithiau'r fferm

Mae Penygelli yn fferm lôm tywodlyd, sy'n gartref i 250 o ddefaid Texel pur gyda'u perfformiad wedi'i gofnodi, 200 o ddefaid Dorset a 30 o fuchod sugno.

Yno, mae gan Alwyn Phillips a'i fab Huw system bori padog ddyddiol a defnyddiant offer pwysu symudol i wneud y mwyaf o gynnydd pwysau byw ŵyn o borfa. Mae nhw wedi bod yn cofnodi perfformiad y ddiadell Texel gaeedig ers 1980 ac mae ganddynt y ddiadell gyda'r raddfa gyhyrol uchaf yn y DU. Maen nhw'n gwerthu hyrddod gyda'u perfformiad wedi'i gofnodi ac yn annog eu prynwyr i edrych ar fynegai cyffredinol hwrdd ac yna i edrych ar EBVau unigol i fynd i'r afael â nodweddion penodol. Fel un sy'n cyfrannu hyrddod ar gyfer prosiect RamCompare, gall Alwyn arddangos gwerth hyrddod gyda mynegai uchel i ffermwyr defaid masnachol sy'n edrych am ŵyn cyhyrog sy'n tyfu'n gyflym ac a fydd yn perfformio ar system sy'n seiliedig ar borfa.

Gwerthir y rhan fwyaf o'r hyrddod yn uniongyrchol o'r fferm fel y gall ffermwyr weld sut mae eu diadell gaeedig, sydd â



statws iechyd uchel, yn ffynnu ar system a gaiff ei rheoli'n ofalus ar eu system sy'n seiliedig ar borfa. Mae Alwyn yn angerddol am gynhyrchu cig o ansawdd ar laswellt a dewis geneteg defaid sy'n perfformio'n dda ar system sy'n seiliedig ar laswellt, ac yn credu bod y ddau yn mynd law yn llaw. Mae gorffen ŵyn yn gyflym hefyd yn lleihau ôl-troed carbon y fferm.

Y brif her o ran tyfu glaswellt ar y fferm yw'r glawiad uchel o bryd i'w gilydd yn y Gwanwyn ar y caeau pridd trymach, yn enwedig ar gyfer pori gwartheg. Mae angen cynllunio'n ofalus a phori'r rheiny'n hwyrach yn y flwyddyn i osgoi niweidio'r pridd. Teimla Alwyn bod iechyd a strwythur pridd yn allweddol ar gyfer tyfu a defnyddio glaswellt, ac mae'n rheoli ei laswelltir mewn modd sy'n diogelu'r pridd.

Dod yn rhan o GrassCheckGB

Mae Alwyn wedi ymwneud ag amrywiaeth o brosiectau dros y blynyddoedd, ac mae o bob amser yn awyddus i wella a datblygu. Mae'n agored i roi cynnig ar syniadau newydd ac



mae o wedi cyfrannu hyrddod i brosiect RamCompare ers i'r prosiect ddechrau.

Ymunodd â GrassCheckGB ar y dechrau, 5 mlynedd yn ôl, i ddeall twf glaswellt ac i ddatblygu rheolaeth effeithlon ohono a lleihau mewnbynnau ymhellach.

Manteision i'r busnes ers ymuno â GrassCheckGB

Meddai Alwyn: "Drwy fod yn rhan o GrassCheckGB, rydw i wedi darganfod gwir botensial fy fferm i dyfu porfa. Mae'r cyfan yn dibynnu ar y pridd, sef ein hadnodd mwyaf gwerthfawr ar y fferm.

"Drwy ddefnyddio meddalwedd Agrinet a chofnodi data'n rheolaidd, mae gen i well rheolaeth o fy nglaswelltir a gallaf gadw llygad ar y caeau sy'n perfformio'n dda a'r rhai sydd ddim yn perfformio cystal. Felly, gallaf dargedu unrhyw fewnbynnau sydd eu hangen yn y pridd a chynllunio ymlaen ar gyfer ail-hadu."

Mae Alwyn yn mesur y glaswellt ar ei dir yn wythnosol. "Mae'n arfer dda iawn ar ôl cychwyn, ac mae'n ail natur i mi erbyn hyn. Mae'n gyfle i fi edrych a chymryd sylw o'r glaswellt wrth i mi ei fesur."

Mae'r busnes hefyd wedi elwa drwy ddeall beth sydd angen ei wneud i ymateb i'r galw gan y da byw, a gweithredu drwy dynnu cae allan a'i dorri i wneud silwair o ansawdd uchel.

"Dysgais y ffordd anodd bod glaswellt angen cyfle i orffwys pan newidiais o system stocio benodol. Dwi hefyd wedi



newydd y system pori cylchdro drwy sefydlu caeau hectar a symud da byw pan oedd caeau'n cyrraedd y nod o ran beth sy'n weddilliol. Roedd hyn yn gweithio'n well i fi na symud ffensys drwy'r amser. Mae'r hyn sy'n weddill yn newid yn ystod cyfnodau sych pan rwy'n gadael gorchudd uwch i greu cysgod ac sydd yna'n galluogi i'r glaswellt dyfu'n sydyn pan fo gwlybanaeth ar gael."

Gwersi pwysig a ddysgwyd ers ymuno â GrassCheckGB

Mae'r fferm wedi llwyddo i leihau costau drwy leihau'r defnydd o wrtaith o 50%, tra'n tyfu a defnyddio mwy o laswellt i orffen ŵyn.

Meddai Alwyn: "Dwi'n teimlo bod y cyfuniad o wneud y mwyaf o'r glaswellt sy'n cael ei bori a dewis defaid sy'n perfformio'n dda ar system sy'n seiliedig ar laswellt yn hanfodol, ac yn ffordd o baratoi ar gyfer bywyd heb gymorthdaliadau cynhyrchu. Mae datblygu systemau fel hyn yn cymryd amser a gwelliannau mewn geneteg - dydi o ddim yn digwydd dros nos.

"Buaswn yn annog ffermwyr eraill i elwa ar gofnodi perfformiad defaid a datblygu systemau pori i gynhyrchu cig o ansawdd uchel ar borfa heb lawer o fewnbynnau."